Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

# Amseroedd aros GIG Cymru – adroddiad monitro tymhorol

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 14 Mehefin 2023
Health and Social Care Committee | 14 June 2023

## Cyflwyniad

Dyma **drydydd adroddiad monitro** y Pwyllgor ar amseroedd aros GIG Cymru.

Ym mis Chwefror, trafododd y Pwyllgor ei ail adroddiad monitro ac ysgrifennodd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Gweinidog Iechyd') yn cydnabod y bu peth cynnydd o ran mynd i'r afael ag amseroedd aros y GIG. Fodd bynnag, roedd y llythyr yn codi pryderon difrifol am **gyflymder yr adferiad**. Rhybuddiodd y Pwyllgor, oni bai bod gweithgarwch yn cynyddu'n sylweddol, na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei thargedau adfer.

Mae'r data diweddaraf (a gyhoeddwyd ar 18 Mai) yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn wir wedi methu ei dau darged adfer cyntaf:

- Lleihau amseroedd aros cleifion allanol i lai na 52 wythnos erbyn diwedd Rhagfyr 2022.
- Dileu amseroedd aros o ddwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023.

Mae hyn yn golygu bod miloedd o gleifion yn aros am driniaeth y GIG o hyd. Hefyd, methwyd **targed adfer interim** a dderbyniwyd gan dîm Gwella ac Adfer

Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau canser:

- Diagnosis a thriniaeth canser i ddigwydd o fewn 62 diwrnod ar gyfer 70 y cant o bobl erbyn mis Mawrth 2023.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn ar gyfer **mis Mawrth 2023** (y data diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu). Ym mis Mawrth:

- roedd oddeutu 53,000 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (mwy na blwyddyn) am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf.
- dros 31,000 o lwybrau cleifion yn aros mwy na dwy flynedd am driniaeth.
- Dim ond 55.3% o lwybrau cleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i gael yr amheuaeth bod canser arnynt am y tro cyntaf.

Cyhoeddir data amseroedd aros yn fisol ar wefan StatsCymru gydag oedi o ddau fis. Mae adroddiadau monitro blaenorol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**D.S.** Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl lwybrau agored lluosog. Mae rhagor o wybodaeth ar gael fel rhan o flog Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. (Mae diweddariad ystadegol Llywodraeth Cymru yn adrodd ym mis Mawrth, pan oedd tua 734,700 o lwybrau cleifion agored, fod tua 576,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaeth yng Nghymru).

# 1. Trosolwg

Ym mis Mawrth 2023, cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth o oddeutu 731,000 i oddeutu 734,700, y cynnydd cyntaf ar ôl cwympo am bum mis yn olynol. Ers diwedd mis Hydref 2022, bu gostyngiad misol yng nghyfanswm y rhestr aros, ond bu cynnydd o dros 3,000 o lwybrau cleifion o fis Chwefror 2023.

Mae **pwysau'r gaeaf a gweithredu diwydiannol gan staff GIG Cymru** yn debygol o fod wedi effeithio ar nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth, ond nid yw'r Gweinidog wedi mynd i fanylder am hyn (h.y. nid yw'n glir faint o lawdriniaethau a gynlluniwyd y bu'n rhaid eu canslo o ganlyniad i streic).

Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth ym mis Mawrth 2023 **58.5% yn uwch** nag ar ddechrau'r pandemig ym mis Chwefror 2020. Er gwaethaf hyn, dywed Llywodraeth Cymru fod mwy na 320,000 o lwybrau cleifion wedi'u tynnu o' rhestr aros y llynedd (mis Ionawr i fis Rhagfyr 2022).

D.S. Dywed y Gweinidog Iechyd nad yw Llywodraeth Cymru yn adrodd **data llwybrau sydd wedi'u cau** yn seiliedig ar y rheswm dros gau'r llwybr claf. Mae dechrau triniaeth ond yn un o'r rhesymau dros hyn. Mae'n aneglur felly, faint o lwybrau cleifion sydd wedi'u dileu yn dilyn ymarferion dilysu rhestrau aros, a/neu efallai'n fwy arwyddocaol, faint o lwybrau cleifion sydd wedi'u cau oherwydd bod cleifion wedi **dewis triniaeth breifat** yn lle hynny.

Ystadegau allweddol:

- Cynyddodd cyfran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos i 58.5% ym mis Mawrth. Mae hyn wedi bod yn gymharol sefydlog ers peth amser ar ôl gostwng yn sylweddol o'r lefelau cyn y pandemig.
- Gostyngodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 36 wythnos am y seithfed mis yn olynol ym mis Mawrth, i ychydig o dan 228,000, sef y lefel isaf ers mis Ebrill 2021 ond mae hyn yn parhau i fod yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol.
- Roedd dros 31,700 o lwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd, sef 55% yn is na'r brig ac yn gostwng am flwyddyn ar ôl cynnydd cyson drwy gydol 2021.

- Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) y bu llwybrau cleifion yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Mawrth wedi gostwng ers y mis blaenorol i 20.0 wythnos.

# 2. Cynnydd yn erbyn y pum targed adfer


Mae'r graffiau a'r dadansoddiad yn y papur hwn yn dangos cynnydd yn erbyn pum targed adfer Llywodraeth Cymru a bennwyd yn y cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio.

## 2.1 Nifer y llwybrau cleifion yn aros am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf

Dangosodd data amseroedd aros mis Rhagfyr 2022 na chyflawnwyd targed adfer Llywodraeth Cymru i leihau amseroedd aros cleifion allanol i lai na 52 wythnos.

Targed 1 y cynllun adfer: Dim cleifion i aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022

Ffigwr 1: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf – amcanestyniad yn seiliedig ar ddata mis Hydref 2022 i fis Mawrth 2023



Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr

Bu **gostyngiad o 48%** yn nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf ym mis Mawrth 2023 (o'r brig a gyrhaeddwyd ym mis Awst 2022), ond y targed adfer oedd dileu pob rhestr aros o fwy na 52 wythnos.

Ym mis Mawrth 2023, roedd oddeutu 52,925 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (mwy na blwyddyn) am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed adfer diwygiedig i **gyflawni hyn erbyn mis Mehefin 2023**.

## 2.2 Nifer y cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth GIG o fewn dwy flynedd


Targed 2 y cynllun adfer: Dileu nifer y bobl sy'n aros am fwy na dwy flynedd i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023

Ym mis Mawrth 2023, roedd tua 31,700 o lwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos (mwy na dwy flynedd) i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau. Mae'r niferoedd yn dechrau gostwng ond mae **cyflymder yr adferiad** yn arafach na'r disgwyl. **Ni chyflawnwyd** targed adfer Llywodraeth Cymru i ddileu'r rheini sy'n aros yn hirach na dwy flynedd i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau.

Mae data mis Mawrth 2023 yn dangos **cwymp am y deuddegfed mis yn olynol**. Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros yr isaf ers mis Medi 2021.

Fodd bynnag, mae amcanestyniad sy'n defnyddio data o fis Hydref 2022 i fis Mawrth 2023 yn dangos, ar y gyfradd gyfredol o gynnydd (h.y. os bydd cyfradd y cynnydd ers mis Hydref 2022 yn cael ei chynnal), na fydd **y targed adfer** i ddileu rhestrau aros dwy flynedd ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau **yn cael ei gyflawni tan oddeutu mis Hydref 2023**. (Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dyddiad targed diwygiedig ar gyfer mis Mehefin 2023).

Ffigwr 2: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na 105 wythnos i ddechrau triniaeth ac amcanestyniad yn seiliedig ar fis Hydref 2022 i fis Mawrth 2023




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr

Daeth yn amlwg yn ddiweddar nad yw'r targed adfer i ddileu rhestrau aros dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023 **yn cynnwys y saith arbenigedd sy'n cael eu cydnabod fel rhai hynod o heriol.** Yr arbenigeddau hyn yw dermatoleg, llawfeddygaeth gyffredinol, offthalmoleg, wroleg, gynaecoleg, orthopaedeg, a'r glust, y trwyn a'r gwddf.

Dywed Llywodraeth Cymru fod gan yr arbenigeddau hyn niferoedd mawr yn aros cyn y pandemig COVID-19.

Mae'r saith arbenigedd y tu allan i gwmpas y targed yn cyfrif am **27,400 (86 y cant) o lwybrau cleifion** yn aros mwy na dwy flynedd. Ar ben y saith arbenigedd

'hynod o heriol', roedd **17 o arbenigeddau pellach** â llwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd ym mis Mawrth. Mae hynny'n cyfrif am 4,300 o lwybrau cleifion.

## Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei dau darged cyntaf?

Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar 35 o arbenigeddau. Mae cymharu'r data rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023 yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei huchelgais o ddileu rhestrau aros dwy flynedd yn yr arbenigeddau lle'r oedd y niferoedd yn fach i ddechrau (fel meddygaeth geriatrig, deintyddiaeth bediatrig a llawdriniaeth bediatrig ac ati).

O'r 17 o arbenigeddau â llwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd ym mis Mawrth 2023 (nid yr arbenigeddau hynod o heriol), roedd y rhestrau aros hiraf ar gyfer llawdriniaeth y geg (1,725), llawfeddygaeth blastig (570), gastroenteroleg (559), gwasanaethau diagnostig (320), orthodonteg (279) a rheoli poen (274).

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, cydnabu'r Gweinidog Iechyd fod "gweithredu diwydiannol a phwysau'r gaeaf wedi effeithio ar nifer y cleifion sy'n aros yn fwy na'r targed penodedig". Fodd bynnag, dywed y Gweinidog:


> Ffactor fwy arwyddocaol… yw'r gwahaniaeth yn niferoedd ycleifion brys a chleifion rheolaidd a welwyd gan fyrddau iechyd cyn ac ar ôl y pandemig.

Mae'n esbonio bod miloedd o gleifion yn cael eu gweld ar frys gan GIG Cymru ac mae'n mynnu:

> Mae blaenoriaethu llwybrau brys yn lleihau'r capasiti sydd ar gael i ddarparu gofal i gleifion sy'n cael eu blaenoriaethu'n glinigol fel rhai arferol, sydd wedyn yn aros yn hirach.

Mae cyfartaledd derbyniadau bob dydd i bob adran achosion brys wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae derbyniadau o adrannau brys mawr wedi aros yr un fath.

Ffigur 3: Derbyniadau ar gyfartaledd mewn adrannau achosion brys, a derbyniadau i ysbytai o ganlyniad i dderbyniadau mewn adrannau achosion brys mawr fesul dydd, mis Ebrill 2018 i fis Ebrill 2023




Ffynhonnell:Set ddata adrannau achosion brys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng'. Mae wedi cyhoeddi Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf: Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng – Llawlyfr polisi 2021-2026.

Ysgrifennodd Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru at y byrddau iechyd yn 2022, gan ddweud y dylai cleifion sy'n aros dros 104 wythnos gael eu rhoi yn yr un categori â chleifion brys wrth drefnu apwyntiadau.

Ym mis Ebrill 2023, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi'r Strategaeth Adfer a Thrawsnewid Diagnosteg yng Nghymru 2023-2025, sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio diagnosteg i gefnogi adferiad gwasanaethau'r GIG a pharatoi ar gyfer angen yn y dyfodol.

## 2.3 Nifer y cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth GIG o fewn blwyddyn


Targed adfer 3: Dileu nifer y bobl sy'n aros mwy na blwyddyn i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025

Ym mis Mawrth 2023, roedd tua 135,797 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (mwy na blwyddyn) i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau. Mae hyn i lawr 26% o'r brig o 183,450 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos ym mis Awst 2022. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn wir bod nifer sylweddol o bobl yn aros am amser hir iawn o hyd i ddechrau triniaeth y GIG.

### A yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei tharged?

Mae amcanestyniad sy'n defnyddio data o fis Hydref 2022 i fis Mawrth 2023 yn dangos, ar y gyfradd gyfredol o gynnydd (h.y. os bydd cyfradd y cynnydd ers mis Hydref yn cael ei chynnal), na fydd y targed adfer i ddileu rhestrau aros blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau yn cael ei gyflawni tan ar ôl mis Ionawr 2024 (y targed adfer yw gwanwyn 2025). Ar y sail y bydd y targed adfer hwn yn eithrio'r saith arbenigedd 'hynod o heriol'.

Ffigwr 4: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos i ddechrau triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau (ac eithrio'r saith sy'n cael eu cydnabod fel rhai hynod o heriol) a'r amcanestyniad yn seiliedig ar y data mis Hydref 2022 i fis Mawrth 2023





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr

## 2.4 Diagnosteg a therapi

Uchelgais 4: Cynyddu cyflymder profion diagnostig ac adrodd i wyth wythnos ac 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi erbyn gwanwyn 2024

Ffigwr 5: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros 8 wythnos neu ragor am wasanaethau diagnostig a thros 14 wythnos am wasanaethau therapi




Ffynhonnell: StatsCymru, Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi

### Gwasanaethau diagnosteg

Yn achos gwasanaethau diagnostig, **cynyddodd** nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i tua 116,400 ym mis Mawrth 2023. Cynyddodd nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy nag wyth wythnos (y targed o ran uchafswm rhestr aros) i oddeutu 43,300. Mae gwasanaethau diagnosteg yn cynnwys endosgopi, delweddu, radioleg a chardioleg ac ati.


Mae data mis Mawrth 2023 yn dangos mai endosgopi a niwroffisioleg sydd â'r ganran uchaf o lwybrau cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos. Mae gan endosgopi 24,485 o lwybrau cleifion yn aros, sy'n cyfateb i 21% o'r holl aros am lwybrau diagnostig. Mae gan radioleg 68,268 o lwybrau cleifion aros (gan

gyfuno'r 2 gategori radioleg), sy'n cyfateb i 58.7% o'r holl aros am lwybrau diagnostig.

Y rhestrau aros hiraf ym mis Mawrth 2023 oedd endosgopi diagnostig (canolrif 15.2 wythnos) a niwroffisioleg (canolrif 10.0 wythnos).

Mae ffigwr 6 isod yn dangos bod 63.9% o lwybrau endosgopi diagnostig yn aros mwy nag 8 wythnos o gymharu â 10.8% o lwybrau delweddu.

Ffigwr 6: Canran y llwybrau cleifion yn aros wyth wythnos neu fwy am wasanaethau diagnosteg




Ffynhonnell: StatsCymru, Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi yn ôl mis

## Gwasanaethau therapi

Yn achos therapïau, **cynyddodd** nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i ychydig dros 62,700 ym mis Mawrth ac mae'n parhau'n uchel mewn cyd-destun hanesyddol. Roedd cwymp yn y nifer sy'n aros mwy na phedair wythnos ar ddeg (uchafswm y targed rhestr aros) i ychydig dros 7,000, gan gwympo am flwyddyn, gyda chwymp o 51.6% o'r brig ym mis Mawrth 2022. Mae gwasanaethau therapi yn cynnwys awdioleg, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, podiatreg a lleferydd ac iaith ac ati.

## 2.5 Amseroedd aros canser


**Uchelgais 5: Diagnosis a thriniaeth canser i ddigwydd o fewn 62 diwrnod ar gyfer 80% o bobl erbyn 2026**

Mae cynllun adfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys targed adfer ar gyfer gwasanaethau canser, sy'n cynyddu cydymffurfiaeth â'r Llwybr Canser Sengl (h.y. bydd diagnosis a thriniaeth yn digwydd o fewn 62 diwrnod) o 75 % **i 80% erbyn 2026.**

Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn y targed gwreiddiol y Llwybr Canser Sengl (i gyflawni 75% gyda'r targed 62 diwrnod) wedi bod yn wael ac **yn parhau i fod yn wael**. Nid oes yr un bwrdd iechyd yng Nghymru wedi cyflawni'r targed o 75% ers mis Gorffennaf 2020. Mae Cynllun Gwella Canser Rhwydwaith Canser Cymru yn datgan:

> Mae'r Tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio wedi gosod targed cydymffurfedd o 70% fel carreg filltir i'w chyflawni erbyn mis Mawrth 2023 a 80% erbyn Mawrth 2026.

Ffigwr 7: Canran y bobl â diagnosis o ganser a oedd wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf.




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau gofal ble y dechreuodd y claf gael triniaeth ddiffiniol gyntaf a’r rhai a gafodd wybod nad oes ganddynt ganser, yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle’r tiwmor, grŵp oedran, rhyw, mesur ac yn ôl mis.

Mae’r rhestrau aros canser yng Nghymru ymysg eu gwaethaf erioed ar hyn o bryd. Ym mis Mawrth 2023, dim ond **55.3% o lwybrau cleifion** (974 allan o 1,761) a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i gael yr amheuaeth bod canser arnynt am y tro cyntaf. Roedd hyn 2.8 pwynt canran yn uwch na’r mis blaenorol.

Cynyddodd perfformiad ym mis Mawrth, sy'n golygu bod mwy o bobl wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol ym mis Mawrth (1,761) nag yn y mis blaenorol. Ond mae'r rhestrau aros yn parhau i fod yn hir. Methwyd y **targed interim** y cytunwyd arno gyda'r Tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio o **gydymffurfedd o 70% erbyn mis Mawrth 2023**.

Mae ystadegau ar gael fesul safle tiwmor. Mae data mis Mawrth 2023 yn dangos mai gynaecolegol, gastroberfeddol is, wrolegol, a'r pen a'r gwddf sydd â'r gyfran leiaf yn dechrau eu triniaeth gyntaf o fewn 62 diwrnod.

Ffigwr 8 Canran y bobl â diagnosis o ganser ac wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i’r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf fesul safle tiwmor.




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau gofal ble y dechreuodd y claf gael triniaeth ddiffiniol gyntaf a’r rhai a gafodd

wybod nad oes ganddynt ganser, yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle'r tiwmor, grŵp oedran, rhyw, mesur ac yn ôl mis.

# 2. Adferiad gwahanol arbenigeddau

Mae yna sawl arbenigedd lle mae'r rhestrau aros yn arbennig o hir. Dywed y Gweinidog Iechyd y bydd 'arbenigeddau heriol' yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu yn 2023/24. Mae hi'n nodi **saith arbenigedd,** gan gynnwys trawma ac orthopedeg, y glust, y trwyn a'r gwddf, offthalmoleg, llawfeddygaeth gyffredinol, wroleg, gynaecoleg a llawfeddygaeth y geg. Dywed:

> Rydym yn newid ffocws y grwpiau clinigol cenedlaethol yn y rhaglen gofal a gynlluniwyd i ddarparu arweinyddiaeth a her i rannu arferion da a chefnogi gweithredu ffyrdd newydd o weithio i drawsnewid darpariaeth gwasanaethau a lleihau amseroedd aros yn y meysydd hyn.


Rhoddodd ein hadroddiad monitro tymhorol diwethaf sylw i drawma ac orthopaedeg (gweler Amseroedd Aros GIG Cymru – adroddiad monitro tymhorol 2). Mae trawma ac orthopaedeg bellach yn cyfrif am bron i draean (31.7%) o gyfanswm y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na dwy flynedd am driniaeth.

Mae'r arbenigeddau â'r amseroedd aros hiraf yn tueddu i fod yn arbenigeddau llawfeddygol.

Cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros ym mis Mawrth 2023.


Mae'r Pwyllgor hefyd wedi wedi cael llythyr gan y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) ynghylch rhestrau aros y GIG mewn perthynas ag offthalmoleg.

Ffigwr 9: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos i ddechrau triniaeth ar gyfer y llwybrau â'r rhestrau aros hiraf (h.y. yn ôl triniaeth)




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a thriniaeth, o Ionawr 2021 ymlaen

Ffigwr 10: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 105 wythnos i ddechrau triniaeth ar gyfer y llwybrau â'r rhestrau aros hiraf (h.y. yn ôl triniaeth)




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a thriniaeth, o Ionawr 2021 ymlaen

## Uwchgynadleddau Gweinidogol

Mae'n werth nodi y cynhaliwyd nifer o **uwchgynadleddau Gweinidogol**, gan gynnwys ar gyfer orthopaedeg, offthalmoleg, gofal brys a'r glust, y trwyn a'r gwddf, a hynny i ystyried yr heriau y mae pob gwasanaeth yn eu hwynebu. Nodwyd yr angen am **lwybrau cynaliadwy** (yn enwedig ym maes y glust, y trwyn a'r gwddf), ac **mynd i'r afael â heriau'r gweithlu** mewn offthalmoleg ac wroleg.

Mae'r Gweinidog Iechyd wedi gwneud ymrwymiad i ddarparu **adroddiad cynnydd blynyddol i'r Senedd** ar hynt y gwaith o weithredu'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu (a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2023). Nid yw'r

Gweinidog wedi cytuno i gyhoeddi'r cynlluniau gweithredu y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt mewn perthynas ag orthopedeg neu ganser.

# 3. Amrywiad ar draws y Byrddau Iechyd

Mae'r Gweinidog Iechyd hefyd wedi ymrwymo i flaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael ag **amrywiad ar draws y byrddau iechyd** yn 2023/24. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Iechyd yn tynnu sylw at nifer o arbenigeddau sydd â niferoedd sylweddol o bobl yn aros dros 52 wythnos am driniaeth GIG, gan ddweud bod hyn yn "**yn adlewyrchu heriau penodol i wasanaethau mewn byrddau iechyd unigol yn hytrach na meysydd sy'n peri pryder cenedlaethol**". Ni ddarperir rhagor o fanylion ond mae'r Gweinidog Iechyd yn gwneud pwynt mwy cyffredinol, sef:

> Mae cyflawni pethau'n wahanol yn allweddol i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd cynyddol rhwng y galw a'r capasiti [...]
>
> Mae £50 miliwn o'r gronfa adfer wedi'i ddal yn ôl heb ei ddosbarthu i fyrddau iechyd unigol er mwyn helpu i ddatblygu datrysiadau lleol a rhanbarthol. Meysydd penodol yw gallu diagnostig a thriniaeth. Bydd yr adnodd yn cael ei ddyrannu yn ystod 2023/24 er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu capasiti yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun adfer.

Mae'r tablau isod yn dangos y saith arbenigedd sydd â'r ganran uchaf o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos a thros 105 wythnos fesul bwrdd iechyd. Nid yw hyn yn cynnwys Powys gan fod nifer y llwybrau cleifion yn fach iawn.

| **Betsi Cadwaladr** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos** | | | **Llwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos** | | |
| | **Nifer** | **%** | | **Nifer** | **%** |
| Orthodonteg | 854 | 58% | Orthodonteg | 279 | 19% |
| Llawfeddygaeth y geg | 3,071 | 41% | Llawfeddygaeth y geg | 1,424 | 19% |
| Trawma ac orthopaedeg | 6,071 | 34% | Trawma ac orthopaedeg | 2,178 | 12% |
| Dermatoleg | 2,843 | 34% | Y glust, y trwyn a'r gwddf | 1,298 | 9% |
| Wroleg | 3,346 | 31% | Llawfeddygaeth gyffredinol | 1,935 | 8% |
| Y glust, y trwyn a'r gwddf | 4,325 | 28% | Rheoli poen | 182 | 8% |
| Llawfeddygaeth gyffredinol | 6,407 | 28% | Wroleg | 860 | 8% |

| **Hywel Dda** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos** | | | **Llwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos** | | |
| | **Nifer** | **%** | | **Nifer** | **%** |
| Y glust, y trwyn a'r gwddf | 2,277 | 32% | Trawma ac orthopaedeg | 1,385 | 13% |
| Trawma ac orthopaedeg | 3,338 | 31% | Wroleg | 874 | 11% |
| Wroleg | 2,041 | 26% | Rheoli poen | 92 | 6% |
| Rheoli poen | 375 | 25% | Llawfeddygaeth gyffredinol | 701 | 5% |
| Llawfeddygaeth gyffredinol | 2,758 | 21% | Y glust, y trwyn a'r gwddf | 247 | 4% |
| Offthalmoleg | 1,533 | 15% | Gynaecoleg | 101 | 2% |
| Gynaecoleg | 531 | 10% | Offthalmoleg | 64 | 1% |

| **Bae Abertawe** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos** | | | **Llwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos** | | |
| | **Nifer** | **%** | | **Nifer** | **%** |
| Trawma ac orthopaedeg | 6,090 | 41% | Trawma ac orthopaedeg | 2,526 | 17% |
| Orthodonteg | 476 | 33% | Llawdriniaeth blastig | 570 | 13% |
| Llawfeddygaeth gyffredinol | 2,983 | 28% | Y glust, y trwyn a'r gwddf | 698 | 11% |
| Llawdriniaeth blastig | 1,189 | 28% | Gynaecoleg | 675 | 10% |
| Y glust, y trwyn a'r gwddf | 1,491 | 24% | Llawfeddygaeth gyffredinol | 895 | 9% |
| Gynaecoleg | 1,559 | 24% | Llawfeddygaeth y geg | 189 | 4% |
| Llawfeddygaeth y geg | 1,114 | 22% | Wroleg | 127 | 4% |

| **Cwm Taf** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos** | | | **Llwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos** | | |
| | **Nifer** | **%** | | **Nifer** | **%** |
| Wroleg | 2,905 | 37% | Wroleg | 1,090 | 14% |
| Y glust, y trwyn a'r gwddf | 4,193 | 34% | Anaestheteg | 105 | 9% |
| Deintyddiaeth adferol | 53 | 34% | Gynaecoleg | 656 | 8% |
| Trawma ac orthopaedeg | 4,440 | 32% | Y glust, y trwyn a'r gwddf | 949 | 8% |
| Offthalmoleg | 4,374 | 32% | Trawma ac orthopaedeg | 1,042 | 7% |
| Llawfeddygaeth gyffredinol | 4,443 | 31% | Llawfeddygaeth gyffredinol | 901 | 6% |
| Gwasanaethau diagnosteg | 2,476 | 26% | Rhewmatoleg | 68 | 5% |

| **Aneurin Bevan** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos** | | | **Llwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos** | | |
| | **Nifer** | **%** | | **Nifer** | **%** |
| Y glust, y trwyn a'r gwddf | 4,126 | 33% | Trawma ac orthopaedeg | 1,864 | 8% |
| Trawma ac orthopaedeg | 7,204 | 29% | Y glust, y trwyn a'r gwddf | 866 | 7% |
| Offthalmoleg | 3,808 | 22% | Wroleg | 233 | 3% |
| Wroleg | 1,376 | 20% | Llawfeddygaeth gyffredinol | 59 | 0% |
| Orthodonteg | 140 | 18% | Llawfeddygaeth y geg | 8 | 0% |
| Llawfeddygaeth y geg | 469 | 12% | | | |
| Patholeg cemegol | 29 | 8% | | | |
| Llawfeddygaeth gyffredinol | 1,037 | 8% | | | |

| **Caerdydd a'r Fro** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos** | | | **Llwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos** | | |
| | **Nifer** | **%** | | **Nifer** | **%** |
| Wroleg | 3,183 | 44% | Wroleg | 836 | 12% |
| Imiwnoleg glinigol ac alergedd | 983 | 43% | Trawma ac orthopaedeg | 1,075 | 8% |
| Offthalmoleg | 5,072 | 33% | Imiwnoleg glinigol ac alergedd | 142 | 6% |
| Trawma ac orthopaedeg | 4,206 | 30% | Offthalmoleg | 795 | 5% |
| Llawfeddygaeth gyffredinol | 3,562 | 23% | Y glust, y trwyn a'r gwddf | 219 | 4% |
| Rhewmatoleg | 334 | 22% | Gynaecoleg | 183 | 2% |
| Gynaecoleg | 1,555 | 20% | Niwroleg | 77 | 2% |